

## TUDALEN 62

Cofnodion Cyfarfod **Cyngor y Ddinas** o bell a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom ar **31 Ionawr 2022** am 8.00 pm.

**YN BRESENNOL:** - Eu Teilyngdod y Maer, Owen Hurcum (Cadeirydd), y Dirprwy Faer, Cynghorydd Gwynant Roberts, Cynghorwyr Les Day, Medwyn Hughes, Derek Hainge, Elin Walker Jones, Huw Wyn Jones, John Wynn Jones, Kieran Jones, John Martin, Enid Parry, Nigel Pickavance, Mair Rowlands, Luke Tugwell, John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Clerc y Dref dros dro), Delyth Davies (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion).

### **236/22 YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### **2327/22 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim.

### **238/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Dim.

### **239/22 CYHOEDDIADAU MAER Y DREF**

Cynigiwyd Mr Martin Hanks yn ffurfiol i fod yn Glerc y Dref dros dro i Gyngor y Ddinas. Roedd pawb o blaid ac yn ddiolchgar iawn iddo am gymryd yr awenau. Bydd yn cael ei gyflogi'n rhan-amser. Roedd yr aelodau wrth eu boddau'n croesawu Martin Hanks yn ei ôl i gynorthwyo Cyngor Dinas Bangor.

**PENDERFYNWYD** (i) penodi Martin Hanks yn Glerc y Dref dros dro.

(ii) hysbysu'r cyhoedd am y penodiad hwn fel bod pobl yn gwybod fod yna rywun yn y swydd.

### **240/22 CYMERADWYO PRAESEPT 2022 – 2023**

Roedd manylion y praesept wedi cael eu trafod yn fanwl yn y cyfarfod blaenorol o ddau Bwyllgor y Cyngor. Cynigiwyd cadarnhau'r praesept yn y cyfarfod hwn o'r Cyngor Llawn.

**PENDERFYNWYD** i) cymeradwyo'r praesept

ii) hysbysu'r ffaith mai dim ond 1c yn fwy fyddai angen i'r Cyngor ei godi ar y praesept.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.15pm**

ACTING TOWN CLERK – Martin Hanks – CLERC Y DREF DROS DRO